# Y Dinesydd

Gorffennaf 2011 Rhif 359 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

**Adran Salem**

## Adran yr Urdd newydd i Dreganna

Ers mis Ionawr mae Adran yr Urdd newydd wedi dechrau yn Salem, Treganna, ar gyfer plant oed cynradd. Mae'r Adran wedi bod yn hynod o lwyddiannus wrth gynnal llu o weithgareddau amrywiol yn wythnosol i'r plant, yng nghapel Salem, Treganna rhwng 6-7 ar nos Iau. Mae rhieni a gwirfoddolwyr wedi bod yn cynnal gweithgareddau gwahanol bob wythnos, fel gwers Sbaeneg, mosaic, helfa drysor o gwmpas y capel, picnic yn y parc, gemau bwrdd, celf a chrefft, coginio ac ati. Mae'r plant yn amlwg wedi cael modd i fyw, ac mae sawl plentyn wedi dweud wrth eu rhieni eu bod yn mwynhau'r adran am eu bod yn hoffi cael hwyl a sgwrsio gyda ffrindiau, sydd ychydig yn wahanol i glybiau eraill sy'n dysgu sgîl yn fwy penodol.

Ymhlith y gweithgareddau, bu'r plant yn paratoi ar gyfer eisteddfod yr Urdd. Perfformiodd y côr a'r parti llefaru yn hyfryd yn y rhagbrofion, ac er na chafwyd llwyfan, roedd y plant wedi mwynhau dod i'r eisteddfod a mwynhau cystadlu a chrwydro'r maes gyda'u ffrindiau. Rhan yn unig o weithgaredd yr adran yw'r cystadlu.

Mae'r adran yn gobeithio mynd o nerth i nerth!





## *Llongyfarchiadau Sophie!*



Llongyfarchiadau i Sophie Baggott o Ysgol Uwchradd Caerdydd ar ennill Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd, Abertawe. Mae hi'n 17 oed ac fe ddechreuodd ddysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd ond yn fwy trylwyr yn y chweched dosbarth. Dywedodd yn bendant y bydd hi'n parhau i siarad Cymraeg ac y byddai am i'w phlant fynd i ysgolion Cymraeg yn y dyfodol. Bydd Sophie'n mynd i Rydychen yn yr Hydref i astudio'r clasuron.

Daeth Daniel Nicol o'r un ysgol yn ail ac Angharad Thomas o Ysgol Hywel Llandaf yn drydydd. Mae'r tri yn ysbrydoliaeth i bawb. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonoch a phob lwc yn y dyfodol.

### Tafwyl 2011

Cafwyd wythnos brysur arall eleni a channoedd o bobl yn mynychu'r gweithgareddau amrywiol. Cynhaliwyd y Ffair yn y Mochyn Du, ddydd Sadwrn 25 Mehefin. Dyma griw Stwnsh yn diddanu. Mwy o newyddion Menter Iaith Caerdydd ar dudalen 9.

# Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Nona Gruffudd-Evans

Golygydd y rhifyn nesaf:
Hefin Mathias

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi erbyn 27 Awst at:
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd
Caerdydd CF14 2AR
029 20 311340
catrinmathias@hotmail.com

Bydd y Dinesydd o hyn ymlaen yn ymddangos ar y 10fed o'r mis. Gallwch anfod digwyddiadau hyd at y 10fed felly i'w cynnwys yn y calendr.

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir y Dinesydd gan
Bwyllgor y Dinesydd

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

# Taith Gerdded Adfer y DU yng Nghaerdydd 2011

Taith Gerdded Adfer yw hon ac mae'n cynnwys ac yn croesawu pawb. Os dywedwch eich bod wrthi'n adfer neu'n dymuno adfer, mae hynny'n ddigon i ni. A pheidiwch ag anghofio dod ag aelodau o'ch teulu, eich cyfeillion a'ch cefnogwyr gyda chi. Wedi'r cyfan, onid yw pawb yn y byd yn ceisio adferiad o ryw afiechyd neu gyflwr?

Bydd Taith Gerdded Adfer Cymru y DU ar 10 Medi, 2011 yn ddiwrnod o ddathlu; llawn sbri, ac yn ddiwrnod anghredadwy o ysbrydoledig wrth i ni roi 'wynebau a lleisiau' i adferiad.

Bydd y Daith Gerdded 1.5 milltir o hyd yn dechrau y tu allan i Neuadd y Ddinas, Caerdydd am 11.00yb gyda chyngerdd ac anerchiadau i ddilyn. Bydd lluniaeth ar gael wedyn y tu fewn i Neuadd y Ddinas.

I gofrestru ar gyfer y Daith a chael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at:

welshrecoverywalk@gmail.com neu gobaithatgerdded@gmail.com

Bydd pobl yn dod yma o dros y byd. Cawsom gadarnhad bod John Shinholser, sylfaenydd a llywydd Sefydliad McShin, un o'r prif gyrff gwasanaethau nid er elw sy'n gweithio ar Adfer Cymuned yn Richmond, Virginia, a'i wraig a chyd-sylfaenydd, Carol McDaid, yn dod i Gaerdydd yn benodol er mwyn ymuno â'r Daith Gerdded Adfer. Bydd John yn traddodi neges bwysig oddi wrth ein ffrindiau yn America. Felly, beth am ddod yno i glywed neges bwysig John.

# Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF10 5BZ
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA
FFERYLLFA CYNCOED PHARMACY, 364 Heol y Cyncoed, CF23 6SA

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ydy'ch tŷ chi'n adeilad glas neu'n adeilad coch? Dyna un o'r cwestiynau ofynnodd Syr John Houghton i'w gynulleidfa yn Salem Treganna nos Fercher 15 Mehefin. Map o Aberdeen oedd ganddo yn dangos faint o wres roedd pob adeilad yn ei golli - coch yn dynodi ynysu gwael a llawer o wastraff egni a glas yr adeiladau clyd. Os nad ydy'n tai ni'n las, rhaid i ni weithredu ar unwaith, gan ein bod yn cyfrannu'n hael at Gynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd. Holodd hefyd a ydyn ni'n prynu trydan gan gwmnïau 'gwyrdd'.

Pan fo John Houghton yn rhoi cyngor, dylen ni gymryd sylw! Cafodd ei eni a'i fagu a'i addysg ysgol yn ardal y Rhyl, cyn mynd i Rydychen a dilyn gyrfa ddisglair iawn. Heddiw, wedi ymddeol. mae'n byw yn Aberdyfi. Dyma un o wyddonwyr mawr y byd, yn uchel iawn ei barch ymhlith gwyddonwyr, gweinyddwyr a llywodraeth-au. Bu'n aelod o'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (yr IPCC) a enillodd Wobr Nobel am eu gwaith. Derbyniodd anrhydeddau gan brifysgolion ar draws y byd. Mae'n awdur diflino a goleuedig ar ei arbenigedd. Prynwch ei lyfr *Global Warming*, sy'n gosod gwyddoniaeth y testun ar ffurf led anarbenigol.

Eglurodd sut mae adroddiadau'r IPCC yn seiliedig ar asesiad cannoedd o wyddonwyr fu'n cynnal trafodaethau gonest a dod i gasgliadau gofalus. Mae tystiolaeth y Panel yn dangos bod tymheredd cyfartalog y Ddaear yn cynyddu'n gyson. Y rheswm dros hyn oll yw'r 'effaith tŷ gwydr'. Mae nwyon yr atmosffer fel blanced sy'n dal gwres pelydriad yr Haul rhag adlewyrchu'n ôl i'r gofod. Mae'r holl garbon deuocsid rydyn ni'n ei gynhyrchu yn gwneud i'r blanced fynd yn fwy trwchus, gan achosi i dymheredd y Ddaear godi oddi tani.

Y rhagolygon? Rhagor o gyfnodau o wres mawr, lefel y moroedd yn codi, rhagor o lifogydd, mwy o sychder. Pwy fydd yn dioddef fwyaf? Trigolion gwledydd tlotaf y byd.

Rhaid i bob un ohonom dderbyn ein cyfrifoldeb fel stiwardiaid y Ddaear a'i hamgylchedd.

Cafwyd y diolchiadau gan yr Athro Glyn O. Phillips.

## Gwahoddiad i Farddoni

Her i unigolion o unrhyw oedran ar unrhyw destun gwyddonol ar unrhyw ffurf farddonol, heb fod dros ugain llinell (200 gair). Anfoner y cynnyrch at Neville Evans (nevilleevans@totalise.co.uk), 29 Ravensbrook, Treforgan/Pentrepoeth, Caerdydd CF15 8LT erbyn Awst 15. Cynigir gwobrwyon.

# Helfa Drysor Tafwyl

Mae'n arferiad bellach i Gymdeithas Carnhuanawc ymgymryd â threfnu'r Helfa Drysor yn ystod wythnos Tafwyl, ac eleni Parc Cathays oedd y filltir sgwâr a ddewisodd Keith Bush ein cadeirydd chwilota ynddi.

Am chwarter i saith roedd dros ugain ohonom wedi dod ynghyd ar risiau'r Amgueddfa Genedlaethol ar noson hyfryd o Haf yn barod am yr her o ddatrys y cliwiau a ddarparwyd ar ein cyfer gan Keith, a braf oedd cael cynifer o ddysgwyr yn ein plith.

A hithau'n noson mor ddymunol ac yn bleser pur cerdded yn hamddenol drwy'r ardal ddiddorol hon o'n Prifddinas, rwy'n amau'n gryf a oedd unrhyw dîm ar frys mawr i fod y cyntaf i gyrraedd y Fuwch Goch, lle penderfynwyd ymgasglu ar y diwedd.

Mae'n rhyfeddol faint o wybodaeth am Gymru, Prydain a'r byd mae dyn yn gallu ei chasglu drwy orfod talu sylw. Ble meddech chi mae'n bosibl dod o hyd i eiriau T.E. Nicholas a Delores Ibáruri, neu La Pasionara yn ymyl ei gilydd? Pwy gymerodd ran yn y *Charge of the Light Brigade*, sydd heddiw â neuadd breswyl wedi ei enwi ar ei ôl, a phwy oedd y cerflunydd gododd gerflun i goffau'r gwron hwnnw?

Pwy oedd yr arlunydd a dorrodd ar undonedd wal goncrid yr Ysgol Seicoleg gan ei harddu â smotiau lliwgar? Dim ond rhai o'r tasgau oedd y rhain. Awr fach bleserus yn ardal Parc Cathays ac fe gewch yr atebion, a gobeithio y mwynhewch chithau'r chwilota gymaint ag y gwnaethom ni.


**Gwaith Tŷ a Gardd o bob math**
**Prisiau rhesymol**

gwaith coed — mân drwsio — patio — ffensio — plastro — teilsio




**DAFYDD ROBERTS**

**0780 0961468**


## Canlyniadau Gwaith Cartref Eisteddfod yr Urdd Abertawe 2011

237: Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl. 10 a dan 19 oed
2il Aled Thomas, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Barddoniaeth Bl. 7
3ydd Guto John, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Barddoniaeth Bl. 9
1af Megan Thomason, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Barddoniaeth Bl. 12 a 13
1af Jacob Ellis, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Rhyddiaith Bl. 2 ac iau
2il Heledd Newton, Ysgol Gymraeg Pwll Coch
Rhyddiaith Bl. 3 a 4
3ydd Manon Fflur Roberts, Ysgol Pencae
Rhyddiaith dan 25 oed
3ydd Elin Blake, Aelwyd y Waun Ddyfal
Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl. 10 a dan 19 oed
1af Osian Jenaer, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
2il Rebecca Thomas, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
3ydd Owain James, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

### Enillwyr CDT Cenedlaethol Eisteddfod yr Urdd 2011

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 5 a 6
3ydd Catrin Lord, Ysgol Gymraeg Pwll Coch
Argraffu Bl. 2 ac iau
3ydd Pabo Cormick, Ysgol Gynradd Iolo Morganwg
Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 5 a 6
3ydd Osian Parry Lowther, Ysgol y Wern
Pyped Bl. 3 a 4
3ydd Alys Evans, Ysgol Gymraeg Pen y Garth
Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 2 ac iau
3ydd Mared Seeley, Ysgol Gymraeg Pen y Garth
3D Tecstilau Bl. 5 a 6
3ydd India Pappas, Ysgol y Wern
Printiau Du a Gwyn Bl. 2 ac iau
1af Ioan Jones-Cole, Ysgol Gymraeg Pwll Coch
Printiau Du a Gwyn Bl. 5 a 6
1af Cerys Davage, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
Dylunio a Thechnoleg Bl. 2 ac iau
3ydd Samuel Ingram, Ysgol Gymraeg Pen y Garth
Portfolio o waith 19-25 oed
3ydd Llio James, Aelod Unigol C. Gorllewin Caerdydd

# TYMOR NEWYDD o RYGBI

Mae **CWINS CAERDYDD** am groesawu chwaraewyr newydd sy'n mynd i fod o help i'r clwb aros yn Adran 4, Cynghrair Swalec, U.R.C. neu hyd yn oed gystadlu i ennill lle yn Adran 3.

Yr hen enw ar y clwb oedd Cyn Ddisgyblion Ysgol Uwchradd Caerdydd, ond erbyn hyn cafodd ei dorri. Mae mwyafrif llethol y chwaraewyr presennol wedi derbyn eu haddysg yng Nglantaf neu Plasmawr.

£50 fydd tâl aelodaeth i chwaraewyr am y flwyddyn ac mae'r cyfleusterau sydd ar gael gystal, os nad gwell na mwyafrif y clybiau.

Mae'r aelodau'n dod o bob cwr o'r ddinas, wedi eu denu i 'Faes Diamond' mae'n debyg gan ei fod mewn man dymunol wrth ymyl y Taf ac o fewn tafliad carreg i barc natur. Rydym yn hoffi meddwl hefyd ei fod yn glwb croesawgar.

Mae CRICC wedi ymgartrefu yma ers deng mlynedd ac yn ceisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg y dyfodol yn y ddinas, yn medru manteisio ar gyfleusterau a safon o rygbi y maen nhw'n ei haeddu.

CRICC sy'n trefnu a rhedeg timau o dan saith hyd at dair ar ddeg yn y clwb. Polisi CRICC yw cynnal pob sesiwn ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y plant yn clywed a siarad yr iaith am ddwy awr bob wythnos, y tu allan i'r ysgol. Mae mwyafrif y plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg erbyn hyn, er yn ddisgyblion mewn ysgolion Cymraeg.

Problem gyson yw gweithredu'r polisi uchod gan ei bod yn anodd dod o hyd i wirfoddolwyr i hyfforddi sy'n rhugl yn yr iaith.

Os ydych yn darllen hwn ac yn teimlo fod y lefel chwarae o fewn eich gallu, dewch i brofi, elwa a mwynhau'r profiad. Bydd ymarfer ar gyfer tymor 2011—12 yn dechrau ganol Gorffennaf. Os nad ydych am chwarae, beth am ddod i hyfforddi'r plant ddechrau mis Medi i ddangos ymrwymiad ac ymdrech i gadw ein hiaith yn fyw.





Gweithgaredd newydd dros yr haf yng nghlwb y 'CWINS' yw chwarae Pétanque, gêm sy'n boblogaidd iawn yn Ffrainc. Dewch draw nos Fawrth, cyn 8 o'r gloch neu brynhawn Sadwrn i gael blas ar chwarae.

# Noson Wobrwyo C. R. I. C. C. 2011




**Tlysau 2011**
Llun drwy ganiatâd Geraint Thomas info@sportspicsuk.com <javascript:void>

Roedd noson wobrwyo CRICC eleni yn un arbennig gan fod y clwb yn dathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

Daeth Jamie Roberts yn ôl ei arfer i gyflwyno anrheg i bob aelod a thlysau i'r aelodau a nodir isod. (Mae rhai aelodau yn y llun gyda Jamie.)

Gwahoddwyd Geraint Thomas (sportspicsuk.com) i dynnu lluniau ar y noson.

Cafodd Jamie help Rhys Patchell sydd hefyd yn gyn aelod ac mae'n helpu hyfforddi. Mae Rhys yn un o sêr y dyfodol ac wedi cynrychioli Cymru yn barod yn y tîm o dan 18 oed.

| | < 7 | < 8 | < 9 | < 10 | < 11 | < 12 | < 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tlws yr Hyfforddwr | Siôn Eames | Rhodri Thomas | Joseph Hawkey | Daniel Thomas | Osian Morris | Rhys Jones | Rhodri Morgan |
| Chwaraewr Y Flwyddyn | Angharad Evans | Joshua Atkinson | Ben Jones | Teddy Williams | Jonah Griffiths | Iwan Williams | Steffan Prytherch |

Cynnydd Mwyaf yn y clwb: Jac Hawkins

Mwyaf Addawol yn y clwb: Steffan Prytherch

Chwaraewr y flwyddyn y clwb: Charley Smith yn ennill Cwpan CRICC




Dyma Angharad Davies.
Y ferch gyntaf i ennill Chwaraewr y Flwyddyn gyda CRICC. Un arall o sêr y dyfodol!

(Llun drwy ganiatâd Geraint Thomas info@sportspicsuk.com <javascript:void>)

## Codi Arian i Marie Curie



Yn y llun mae Mathew Daniel, sy'n gyn ddisgybl Ysgol Glantaf ond sydd nawr yn byw a gweithio yn Llundain. Rhwng 16 Mehefin a 27 Mehefin bu Mathew yn codi arian i Marie Curie drwy seiclo o Land's End i John O'Groats, pellter o 1575 km (tua 984 milltir). Yn y llun mae e ar fin dechrau ei bedwerydd diwrnod ar ei feic o Bewdley i Oldham. Os hoffech helpu Mathew i godi arian tuag at yr achos teilwng yma yna ewch ar lein i www.justgiving.com/mathewdaniel i roi eich cyfraniad er mwyn i Mathew deimlo fod yr ymdrech a'r chwysu wedi bod yn werth chweil.

# Pasport



**Be ydy dy enw di?**

F'enw i yw Alun Saunders.

**O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol?**

Dwi'n dod yn wreiddiol o'r Cimla ger Castell-nedd.

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**

Erbyn hyn dwi'n byw yng Nglan-yr-Afon (*Riverside*) yn y ddinas, er mod i wedi byw yn y Bae, Treganna ac Adamsdown.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**

Ym mis Awst mi fydda' i wedi bod yn byw yng Nghaerdydd ers 10 mlynedd.

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn [neu] ar ôl symud yma?**

Ar ôl astudio Drama ynghyd â gwneud ffrindie gydol oes, ym Mhrifysgol Aberystwyth am dair blynedd, mi ges i le i astudio Actio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yma yng Nghaerdydd. Roedd bywyd newydd yn y ddinas yn hynod gyffrous ac wythnos ar ôl graddio o CBCDC mi gwrddais i â fy mhartner tra allan mewn clwb. Bum mlynedd yn ôl fe brynon ni ein cartref cyntaf ac ry'n ni nawr wedi dyweddïo.

Dwi wedi bod yn gweithio fel Actor ers graddio o'r coleg ac wedi bod yn ffodus iawn, nid yn unig i fod wedi gweithio, ond hefyd i gael amrywiaeth eang o waith o deledu i radio i theatr. Dwi ar fin cwblhau taith o'r sioe gerdd *Guys & Dolls* fel rhan o gast o 22 o Gerddor-Actorion gyda phawb yn chwarae'r gerddoriaeth yn fyw ar eu hofferynnau ar y llwyfan. Profiad anhygoel o weithio ar sioe arbennig gyda chast mor dalentog. Grêt oedd cael perfformio 'adre' yn y Theatr Newydd ym mis Mawrth.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**

'Sdim byd gwell na chwrdd â ffrindie i gael dala lan ar eu newyddion nhw, darganfod beth sy'n digwydd a chael coffi neu beint, yn enwedig ar y penwythnos. Er 'mod i'n credu fod gen i'r swydd orau yn y byd ar adegau, mae ffrindiau a theulu lawer, lawer pwysicach nag unrhyw waith. Hefyd, mae rhai o'm ffrindiau'n honni nad y'n nhw'n gwylio llawer o deledu - dwi i'r gwrthwyneb! Efallai byddai rhai'n dweud 'mod i'n gwylio gormod ond dwi wir, wir yn mwynhau dilyn cyfresi drama a chomedi da - *Heroes, Spooks, Glee, Outnumbered*.

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**

Mae'n eitha hawdd neud i fi chwerthin a bod yn onest, ond mae 'mhartner, fy ffrindiau a fy nheulu i gyd yn dda iawn am wneud i mi chwerthin. Yn anffodus fy hoff hiwmor yw 'schadenfreude', sef chwerthin ar anlwc pobol eraill!

**Beth sy'n dy wylltio di?**

Yn anffodus mae'n weddol hawdd fy ngwylltio hefyd. Pobol sy'n methu dweud 'plîs' a 'diolch' (mae mor hawdd!); pobol sy'n gwthio mewn i giws; pobol sy'n gyrru yn y lôn ganol ar y draffordd heb fod angen... Dwi'n gredwr mawr mewn cymdeithas foesgar gyda rheolau'n amlwg!

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**

Unwaith daw'r haul allan dwi'n dwli ar fynd i eistedd ym Mharc Biwt, ry'n ni'n lwcus i gael ardal werdd mor agored yng nghanol Caerdydd. Yr unig drafferth yw 'mod i'n syllu ar 'y swyddfa', gan fy mod yn gweithio gyda'r nos yn aml yng Nghastell Caerdydd ar y gwleddoedd Cymreig yn diddanu ymwelwyr o Gymru ac ar draws y byd.

**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**

Unwaith daw'r cyfle dwi wrth fy modd yn mynd i ffwrdd gyda Kris, fy mhartner, i ddinasoedd eraill dros y byd i weld gwledydd eraill a dysgu am ddiwylliannau eraill, ac yn bwysicach fyth, eu bwydydd!

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**

Y peth gorau am Gaerdydd yw mai dinas yw hi, ond yn ddinas fechan gyda phopeth sydd angen arna i - partner ffantastig; ffrindie gwych yn byw'n gyfagos; teulu'n ddigon agos i allu ymweld unrhyw bryd, a hefyd y cyfle i gymdeithasu a chlywed y Gymraeg yn fyw ac yn iach.

**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**

Nawr te, ymhen deng mlynedd mi faswn i'n hoffi meddwl 'mod i a 'mhartner yn rhedeg busnes llwyddiannus gyda'n gilydd, gyda 'ngyrfa actio a sgwennu yn mynd o nerth i nerth a'n bod wedi llwyddo i brynu tŷ ychydig yn fwy gyda digon o le i allu fod wedi dechrau teulu. A Jack Russell bach gwyn a brown yn rhedeg o gwmpas yr ardd yn chaso Mam-gu a'r plant.

# Ôl-lwybrau

Yn ddiweddar daeth 'llais llywio' i'n meddiant fel teulu – y *sat-nav* bondigrybwyll sy'n medru'ch cyfarwyddo'n hwylus o bwynt 'A' i ryw 'B' anghysbell neu anghyfarwydd heb fod angen ymgynghori â map. Er nad yw'r teclyn (hyd yma!) wedi mynd â ni trwy fuarth fferm, na'n sodro ar ganol cae nac ar ben mynydd cyn cyhoeddi'n awdurdodol, 'Rydych ar ben eich taith', rhaid cyfaddef iddo ein harwain ar hyd ffyrdd annisgwyl fwy nag unwaith wrth ein tywys tua'n nod.

Pe gwyddwn, ar ddechrau fy mywyd, i ba gyfeiriad y byddai fy *sat-nav* personol am fynd â mi, byddwn wedi amau bod gen i declyn gwallus! Cychwynnais allan oddi ar aelwyd hollol ddi-Gymraeg yng Nghwm Rhondda, a'm cael fy hun maes o law mewn ysgol ramadeg a bwysai ar y merched mwyaf 'academaidd' eu tueddiadau i astudio Ffrangeg yn hytrach na Chymraeg gan y byddai'r iaith honno'n 'fwy defnyddiol' iddynt. Ond nid felly. 'Trowch i'r chwith!' gorchmynnodd fy *sat-nav*, a'm gosod ar lwybr a fyddai'n penderfynu cwrs gweddill fy mywyd.

Cyrraedd trogylch mawr y 18 oed wedyn, a mynd i'r brifysgol yn Aberystwyth gan fwriadu astudio ar gyfer gradd mewn Daearyddiaeth. Ond yn lle clywed y 'Syth ymlaen!' a ddisgwyliwn ar ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf, dyma'r *sat-nav* yn mynd â mi tua'r chwith eto, ar hyd llwybr gradd yn y Gymraeg. Roedd y ffordd honno'n ddigon garw mewn mannau, rhaid cyfaddef, ac mor serth nes fy mod i ar ddiffygio'n aml. Ac mae'n bosib mai dyna fyddai fy hanes, ond bai am griw o gyfeillion o Gymry Cymraeg hael eu hamynedd a pharod eu hanogaeth bob amser.

Wedi gadael Aberystwyth, yn siaradwraig rugl a dwy radd dan fy ngwregys erbyn hynny, sylweddolais fy mod i'n symud bellach trwy dirwedd dieithr – y Gymru Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant na wyddwn fawr ddim amdani cyn mynd i'r coleg. 'Trowch i'r chwith!' meddai fy *sat-nav* eto – a derbyn swydd gyda'r Academi Gymreig ar staff golygyddol y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. 'I'r chwith eto!' ac roeddwn yn aelod o staff Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe.

Er y bûm yn gyrru tua'r un cyfeiriad bras ers peth amser bellach, aeth yr hen *sat-nav* â mi trwy bob math o fannau amrywiol ar y ffordd. 'Gwyrwch i'r chwith!' – a dacw lwybr cydolygu'r cylchgrawn *Taliesin* yn ymagor yn ddirybudd o'm blaen. A'r dargyfeiriad mwyaf annisgwyl o'r cwbl hyd yma oedd hwnnw a'm harweiniodd at lwyfan Eisteddfod Genedlaethol 2005, wedi ennill y Goron!

Nid wyf wedi difaru am eiliad gymryd y troad cyntaf hwnnw i'r chwith yn Ysgol y Porth. Ond rhaid cyfaddef fy mod i weithiau, yn dawel bach, yn ceisio dychmygu sut y byddai pethau wedi troi allan pe bai fy *sat-nav* wedi ei raglennu'n wahanol, a minnau wedi dewis Ffrangeg...

*Christine James*

# Rhyfeddod cerdd Caerdydd!



Ar fy ffordd i ymarfer wythnosol Côr Caerdydd o'n i, pan ges i fy ngwahardd rhag gyrru ar hyd Ffordd y Castell - caewyd y ffyrdd yng nghanol y Ddinas fel petai yn bnawn gêm ryngwladol! "O ie" meddyliais, "mae cystadleuaeth BBC Canwr y Byd, Caerdydd ymlaen yr wythnos hon, ac mae'n siŵr gen i eu bod wedi cau'r dre er mwyn rhoi rhwydd hynt i'r beirniaid gyrraedd Neuadd Dewi Sant mewn da bryd". Wedi'r cwbl pwy all sefyll yn ffordd Kiri Te Kanawa a Dennis O'Neill ar noson fel hon? Ond wedi gorfod aros mewn rhes o geir i droi nôl lan Ffordd y Gogledd, sylweddolais mai nad dilynwyr arferol prif Gystadleuaeth Canu'r Byd oedd yn tyrru at ganol y dre. Yn hytrach, heidiau o fenywod ifanc a chanol oed, y rhan fwyaf ohonynt yn eu pinc, yn cario poteli o winoedd gwyn, chwifio baneri, ac yn sgrechain o bryd i'w gilydd! Sori Dame Kiri, ond nid selogion Canwr y Byd mo' rhain ond degau o filoedd o fans *Take That* ar eu ffordd am yr ail noson yn olynol at Stadiwm y Mileniwm er mwyn bod o fewn cyrraedd tafliad cusan at Robbie Williams, Gary Barlow a'r lleill.

"Yn wir mae ein prifddinas yn gallu cynnig y sbectrwm cyfan o gerddoriaeth y dyddiau hyn, ac yn aml ar yr un noson," meddyliais eto, wrth droi sain y CD yn fy nghar yn uwch fyth er mwyn ceisio ymgynefino â cherddoriaeth unigryw symffoni Gothic, Havergal Brian. Na, 'dyw e ddim yn ymddangos yn siartiau Classic FM, na chwaith ar faes llafur cerdd y Cyd Bwyllgor Addysg – ond dyma'r her ddiweddara sydd o flaen Côr Caerdydd wrth inni baratoi i ymuno â nifer o gorau eraill yn Proms y BBC yn Neuadd Albert ym mis Gorffennaf. Rydym yn hyderus y bydd y seiniau aflafar sydd yn atseinio o'r neuadd ymarfer yn gweu at ei gilydd mewn digon o amser i gyflwyno noson fythgofiadwy yn Llundain. Esiampl arall o'r ystod eang o gerddoriaeth a glywir yng Nghaerdydd!

*Wyn Mears*

# Geraint Rees: Teyrnged



Y tro cyntaf imi glywed am Geraint Rees oedd fel arweinydd Teulu Twm, arweinydd ifanc, ysbrydoledig, egnïol a brwdfrydig, ond, yn bwysicach, yn meddu ar y ddawn i arwain pobl ifanc. Yr ail dro imi ddod ar ei draws oedd pan gynigiodd, yn llwyddiannus, am swydd dirprwy bennaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Prin y cafodd amser i adael ei farc ar yr ysgol gan iddo gynnig, eto yn llwyddiannus, am brifathrawiaeth yr ail ysgol gyfun Gymraeg yn y brifddinas, Plasmawr, yn 1998. Adeiladodd yr ysgol ar seiliau addysgol a Christnogol cadarn, a'i harwain i lwyddiant disglair drwy ddarparu addysg ardderchog yn academaidd, ysbrydol a diwylliannol, ar y meysydd chwarae fel ar lwyfan drama a cherdd.

Bu erioed yn ddyn yn meddu ar weledigaeth, egwyddorion cadarn (megis cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol), a phragmatiaeth wleidyddol. Nid syndod felly oedd mai ef a ddewiswyd yn bennaeth uwchradd Cymru yn 2006 (gwobrau athrawon), ac yna ei benodi i Gyngor Caerdydd, gan arwain datblygiadau arwyddocaol, cyffrous, a dadleugar (weithiau) ym maes addysg cyfrwng-Cymraeg. Drwy gyd-weithio â gwleidyddion lleol, rhieni, yn arbennig drwy RhAG, a llywodraeth ganol, bu'n un o'r swyddogion hirben cyfredol sydd wedi sicrhau lleoliadau ar gyfer y galw cynyddol am addysg cyfrwng-Cymraeg ar draws ein prifddinas. Dechrau ar y daith y bu Geraint, taith fydd yn llawn heriau: nifer o ysgolion yn llawn dop, cynllunio lleoliadau priodol ar gyfer rhwydwaith ym mhob plwyf, a blaengynllunio'r bedwaredd ysgol gyfun Gymraeg.

Dymunwn yn dda i Geraint wrth iddo ysgwyddo cyfrifoldeb newydd fel arch-bennaeth Ysgol Glynderw a Choleg Cymunedol Michaelston. Hwyrach y bydd yn magu profiad ar gyfer datblygiadau tebyg yn y sector Cymraeg. Pwy a ŵyr?

*Dr. Huw S. Thomas*

# Côr Caerdydd yn Budapest

Ar Fehefin 21ain, bu aelodau o Gôr Caerdydd yn rhan o première byd *The Bards of Wales* gan Karl Jenkins yn Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Béla Bartók yn Budapest, Hwngari.

Mae 'Beirdd Cymru' (*A Walesi Bárdok*) yn ddarn o farddoniaeth a ysgrifennwyd gan János Arany yn 1857, ac mae pob plentyn ysgol yn dysgu'r gwaith fel rhan o gwricwlwm cenedlaethol Hwngari oherwydd dylanwad y gerdd ar hanes a llenyddiaeth Hwngari. Gofynnwyd i Arany ysgrifennu cerdd i glodfori ymweliad Franz Joseph y cyntaf o Awstria. Yn hytrach, ysgrifennodd Arany gerdd am chwedl Gymreig pan laddwyd 500 o feirdd Cymru gan Edward 1af yn 1227 fel metaffor i feirniadu'r ffordd galed yr oedd yr Hapsburgs yn rheoli Hwngari ar ôl y chwyldro yn 1848. Roedd yn ffordd gudd o sefyll yn erbyn y rheolwyr o Awstria a'r ymweliad gan yr Ymerawdwr Franz Joseph.

Roedd hi'n dipyn o noson gydag Arlywydd Gweriniaeth Hwngari yn bresennol ynghyd â Llysgennad Prydain yn Hwngari. Cafodd Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd y fraint o arwain Hen wlad fy Nhadau ar gychwyn y gyngerdd gyda Cherddorfa Symffoni MAV , ac roedd baner Cymru yn hedfan drwy'r dydd y tu allan i'r Neuadd gyngerdd. Roedd y profiad o ganu gyda dau o brif gorau cymysg Hwngari yn wych i'r Cymry.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn eithriadol o brysur a llwyddiannus i Gôr Caerdydd. Bu'r côr yn recordio gyda Wynne Evans ar gyfer ei CD newydd aeth i rif 1 y siartiau clasurol, ac mewn cyngerdd gyda Wynne yng Nghaerfyrddin ar gyfer S4C. Gweddill y tymor, gwelwyd y côr yn perfformio yn Neuadd Dewi Sant, Canolfan Mileniwm Cymru, Rhiwbeina, perfformiad o'r Croeshoeliad gan Stainer adeg y Pasg ac yn canu yn rownd derfynol Cwpan Heineken yn Stadiwm y Mileniwm ym mis Mai.

Ar Orffennaf 17eg, mae Côr Caerdydd yn rhan o Brom go arbennig yn Neuadd Albert, Llundain a ddarlledir yn fyw ar BBC Radio 3. Symffoni Gothic gan Havergal Brian lle y bydd dros 1,000 o berfformwyr yn cymryd rhan, a'r tocynnau wedi eu gwerthu o fewn 2 awr o fynd ar werth. Mwy o hanes yn y rhifyn nesaf.

### Cadeirydd Pwyllgor Llyfr y Flwyddyn

Dr Simon Brooks o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yw Cadeirydd Pwyllgor Llyfr y Flwyddyn eleni. Cyhoeddir yr enillydd mewn seremoni yn Cineworld yng Nghaerdydd ar 7 Gorffennaf.

# Datblygiadau Addysg Gymraeg yn yr Awdurdodau Addysg o gwmpas Caerdydd

Mae Caerdydd yn un o 10 awdurdod addysg yn Ne-ddwyrain Cymru. Sut mae sefyllfa Caerdydd yn cymharu â'r sefyllfa yn yr awdurdodau eraill? Does ond dwy ohonynt sy'n debyg i Gaerdydd yn dangos twf cyson dros y 15 mlynedd ers sefydlu'r awdurdodau newydd ym 1996, sef Caerffili a Bro Morgannwg.

Yng Nghaerffili mae'r awdurdod wedi agor 3 ysgol gynradd newydd yn Aberbargoed (Bro Sannan), Gelligaer (Pen Allta) ac Oakdale (Cwm Derwen) yn ogystal â throsglwyddo ysgolion eraill i adeiladau newydd. Ar hyn o bryd y broblem yw bod Cwm Rhymni bellach yn rhy fach i dderbyn cynnyrch yr holl ysgolion cynradd fydd eleni yn derbyn 414 plentyn i ddechrau addysg Gymraeg, sef 14 ffrwd o 30. I ddatrys y broblem mae'r awdurdod ar ôl ymgynghori â'r rhieni wedi penderfynu darparu addysg uwchradd Gymraeg yn y dyfodol mewn ysgolion iau i blant blynyddoedd 7,8 a 9, ac wedyn mewn un ysgol uwchradd hŷn sef Cwm Rhymni ar gyfer blynyddoedd 10-13. Mae cynllun y fwrdeistref yn rhagweld yn sicr agor ail ysgol gyfun iau i dderbyn plant o ysgolion Cymraeg rhan uchaf cwm Rhymni ac os bydd arian ar gael, trydedd ysgol gyfun iau ar gyfer plant cymoedd Sirhywi (isaf) ac Ebwy (ganol). Fe fydd tua 3000 o blant yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg yn y 4 ysgol gyfun iau a hŷn a ragwelir yn y cynllun hwn.

Bron ddwy flynedd yn ôl cynhaliodd Bro Morgannwg arolwg y galw am addysg Gymraeg, gan ddarganfod yr angen am ddarpariaeth ychwanegol. Bu ymateb o fewn mis gyda chynllun i agor dwy ysgol ychwanegol ar fyrder, helaethu un arall ar unwaith ac ymestyn pedwaredd ysgol ar safle i'w ddarganfod ychydig yn arafach. Helaethwyd Ysgol Pen-y-garth i dderbyn 60 plentyn y flwyddyn yn lle 50 erbyn Medi diwethaf. Cafwyd ymgyrch gan y Blaid Lafur yn erbyn yr ysgolion newydd a lwyddodd i ohirio agor yr ysgolion newydd yn Y Barri a Llanilltud Fawr tan Fedi eleni, ond fe fyddant yn agor ill dwy eleni serch yr anghydfod am enw'r ysgol newydd, sef gwrthod Ysgol Gwynfor i gael Ysgol Nant Talwg.

Wedi cynnal arolwg y galw a ffeindio bod y galw yn fawr iawn, mae Casnewydd wedi cael tröedigaeth. Yn gyntaf caniatawyd ffrwd arall yn Ysgol Gymraeg Casnewydd. Yn ail agorwyd ail ysgol tua gogledd y ddinas (Ifor Hael) ar gyfer un ffrwd yn 2009 a chytunwyd bod eisiau ail ffrwd yno ar gyfer plant 2010. Ar ben hyn oll bydd trydedd ysgol yn agor yng ngorllewin



Casnewydd fis Medi nesaf. O fewn 5 mlynedd mae darpariaeth Casnewydd wedi cynyddu o dderbyn 30 plentyn y flwyddyn i dderbyn 150, nifer wrth gwrs bydd yn cyfiawnhau ysgol uwchradd Gymraeg yn y ddinas erbyn 2017 ar yr hwyraf.

Mae Torfaen i'r gogledd o Gasnewydd ac am resymau hanesyddol yn gyfrifol am ysgol uwchradd Gymraeg Sir Gwent. Mae Torfaen wedi mabwysiadu cynllun i wella adeiladau Gwynllyw a'u hymestyn i alluogi'r ysgol i barhau i dderbyn holl blant ei dalgylch tan 2015 pryd na ellid peidio ag agor ail ysgol yn yr hen sir Gwent - yn debyg o fod yng Nghasnewydd i dderbyn plant y ddinas a hefyd plant Ysgol y Ffin, Cil-y-coed (Sir Fynwy). Mae Torfaen hefyd wedi agor trydedd ysgol gynradd sef Ysgol Panteg mewn hen adeilad a all dderbyn 150 plentyn. Mae RhAG yn ystod 2011 wedi ffurfio pwyllgor sirol yn Nhorfaen gyda chefnogaeth frwd rhieni lleol.

I'r dwyrain o Dorfaen a Chasnewydd, yr awdurdod yw Sir Fynwy, sy'n gyfrifol am ddwy ysgol Gynradd Gymraeg, un yn y gogledd yn Y Fenni ac un yn y de, Ysgol y Ffin, sy bellach wedi symud i adeilad gwell a mwy yng Nghil-y-coed. Mae angen agor ysgolion eraill yn Nhrefynwy yng ngogledd-ddwyrain y sir ac ym Mrynbuga ar ganol y sir.

I'r gorllewin o Dorfaen mae Blaenau Gwent, ardal awdurdod tlotaf Cymru, lle cynhaliwyd yr Eisteddfod y llynedd gan greu llawer o addewidion/dymuniadau i wella darpariaeth addysg Gymraeg. Un ysgol Gymraeg sydd erioed wedi bod ar dir yr awdurdod a agorwyd gan Sir Frycheiniog pan oedd Brynmawr yn dal yn y sir honno. Da oedd gadael yr adeiladau gwarthus ym Mrynmawr am adeilad hynod o fodern ger y Blaenau (Blaina) yn yr Ebwy Fach dan yr enw Ysgol Bro Helyg a agorwyd cyn Nadolig 2010 gan ein Prif Weinidog. Ond yn anffodus mae'r safle yn llawer mwy anghyfleus i blant Cwm Sirhywi. Mae nifer o blant Tredegar yn barod wedi dechrau symud o ysgol feithrin Gymraeg i addysg statudol Saesneg. Mae RhAG wedi sefydlu cangen leol sy'n frwd i geisio sefydlu ail ysgol Gymraeg naill ai yn y Sirhywi neu yn yr Ebwy Fawr sy'n nes i Dredegar na'r Ebwy Fach (cwm Abertyleri).

Does dim newyddion da ar hyn o bryd o Ferthyr nac o Ben-y-bont er bod pwyllgorau sirol gweithgar gan RhAG yn yr ardaloedd hyn.

Mae newyddion da o Rhondda Cynon Taf. Bu pwyllgor sirol RhAG yng Nghanol Morgannwg yn hynod o weithgar rhwng 1980 a 1996 ac fe lwyddwyd i sicrhau agor 5 ysgol ychwanegol yn yr ardal sy bellach dan awdurdod Rhondda Cynon Taf. Yn anffodus er i bwyllgorau sirol RhAG gael eu ffurfio yng Nghaerffili, Pen-y-bont a Merthyr ni ffurfiwyd pwyllgor yn RhCT gyda'r canlyniad nad oes yr un ysgol Gymraeg ychwanegol wedi agor ers 21 flynedd.

Ond fe aeth yr awdurdod rhy bell gan fygwth cau pob dosbarth chwech yn yr ardal ac anfon y plant i un Coleg Dosbarth Chwech yn Nantgarw (bron yng Nghaerdydd). Wrth gwrs "bi-ling" fyddai'r sefydliad hwn sef rhai dosbarthiadau yn y Gymraeg ond popeth arall yn naturiol yn Saesneg, iaith pawb. Fe ddaeth rhieni at RhAG am gyngor. Rhoddwyd y cyngor mewn cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Garth Olwg y llynedd ac fe ffurfiwyd pwyllgor sirol i ymladd cynlluniau'r fwrdeistref i ganoli'r dosbarthiadau chwech ond hefyd i alw ar y cyngor i weithredu mewn ymateb i 2 arolwg y galw, un yn Aberdâr ac un yn nalgylchoedd ysgolion Castellau a Garth Olwg cynradd, yn dangos yn glir yr angen am ysgolion ychwanegol yn y 2 ardal.

Ym mis Chwefror eleni daeth yn amlwg nad oedd lle i blant meithrin (4 oed) yn ysgolion Cymraeg Llantrisant a Llwyncelyn (Porth). Ffurfiwyd pwyllgorau lleol RhAG dan adain y pwyllgor sirol ac wedi sawl cyfarfod â'r awdurdod cytunwyd darparu ystafell symudol i dderbyn y plant ychwanegol yn Llantrisant am flwyddyn. Mae'r sir yn cynnig agor ysgol gynradd newydd fydd y cyntaf ers 22 flynedd pryd y caiff ei hagor ar safle ysgol gyfun Llanhari, lle mae dosbarthiadau gwag ers agor Ysgol Gyfun Llangynwyd, gan awdurdod Pen-y-bont. Mae'r cyfarwyddwr addysg wedi addo paratoi cynlluniau cynhwysfawr i ddatblygu addysg Gymraeg ar draws yr awdurdod. Felly ar ôl cychwyn yn ne-orllewin ardal yr awdurdod mae RhAG yn disgwyl gweld helaethu'r ddarpariaeth ym mhob un cwm, Rhondda Fawr a Fach, Taf a Chynon. Mae RhCT nawr wedi gweld y rhieni sy'n dweud bod angen ysgolion ychwanegol ac yn cael ei orfodi i ymateb.

Felly fe welwch fod symudiadau yn digwydd yn 6 awdurdod arall yn y De-ddwyrain yn ogystal ag yng Nghaerdydd.

*Michael Jones*

# Galwad cyntaf am bapurau gwyddonol i Gynhadledd Y Gymdeithas Feddygol Hydref 2011

Ar y 8-9fed o Hydref 2011 yng Ngwesty'r Marriott, Caerdydd bydd cynhadledd y Gymdeithas Feddygol yn cael ei chynnal. Sefydlwyd y Gymdeithas yn ôl yn 1975 wedi i Dr Tom Davies a Dr Don Williams o Abertawe sylweddoli fod angen cymdeithas glinigol Gymraeg eu hiaith. Cynhaliwyd cynhadleddau rheolaidd ers hynny ac ar un pryd bu darlithoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ynghyd â chystadleuaeth ar thema feddygol.

Oddi ar hynny, bu'n ymwneud ag ystod eang o faterion, gan ddangos yn eglur fod modd gwneud hynny heb anhawster trwy gyfrwng y Gymraeg. Gydag amser, cynigiwyd tystiolaeth i bwyllgorau swyddogol, a gyda chydweithrediad Prifysgol Cymru, cyhoeddwyd llyfryn termau meddygol Cymraeg.

Parha y gymdeithas feddygol Gymraeg ei hiaith yn un gref ond rhaid datblygu safon y gwaith clinigol a gwyddonol dan oruchwyliaeth y Gymdeithas Feddygol. Felly, am y tro cyntaf yn 2010, cynhaliwyd sesiwn o bosteri gwyddonol i fyfyrwyr a meddygon ifanc yn y gynhadledd flynyddol yn Llandudno. Bu'n un llwyddiannus gyda sawl pwnc yn cael ei drin yn ddeallus a'r gwaith o safon uchel. Mae hyn yn hanfodol hefyd i'r tô ifanc ddod i arfer â thrin a thrafod pynciau a materion meddygol yn Gymraeg yn hawdd a naturiol.

Fel y gwyddom wrth nodi'r galw am Goleg Ffederal Cymraeg, yn rhy aml, mae'n disgyblion sydd wedi gweithio mor galed i lwyddo yn eu pynciau gwyddonol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein ysgolion yn colli'r hyder i wneud hynny cyn gynted â'u bod yn dechrau ar eu hastudiaethau pellach yn y Prifysgolion drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'n hen bryd i ni eu cefnogi a rhoi fforwm iddynt gynnal eu diddordeb drwy'r Gymraeg. I'r perwyl hynny, rydym yn ehangu'r cyfleon iddynt yn y gynhadledd flynyddol yng Nghaerdydd eleni. Eleni bydd sesiwn llafar o'r podiwm yn ogystal â sesiwn posteri gwyddonol iddynt. I'r sesiwn llafar, bydd gofyn iddynt gyflwyno papur byr 6 munud o hyd o waith ymchwil neu glinigol gwreiddiol gyda 2 funud o gwestiynau wedyn. Bydd gwobrau i'r poster gorau ac i'r papur gorau yn y ddau gategori (myfyrwyr a meddygon ifanc). I hybu trafodaeth lafar, bydd hefyd cyfle i'r myfyrwyr sydd wedi bod ar gyfnod dewisol yn y flwyddyn ddiwethaf anfon adroddiad i'r pwyllgor. Bydd yr adroddiad gorau yn cael ei ddewis i'w gyflwyno ar benwythnos y gynhadledd gyda gwobr ariannol ar gael i hwn hefyd.

Drwy hyn, gobeithiwn adeiladu ar waith da'r gynhadledd yn y gorffennol drwy normaleiddio a hyrwyddo'r arfer o'r Gymraeg yn y byd meddygol. Ond nid gwaith caled fydd y penwythnos i gyd wrth gwrs. Bydd y cinio blynyddol gyda'r nos yn cynnwys cerddoriaeth byw a charioci yng Ngwesty'r Marriott gan obeithio na fydd pawb yn cysgu'n rhy hwyr fore Sul y gynhadledd!

Dyddiad y gynhadledd yw 8-9 Hydref 2011. Cewch fwy o fanylion ar www.ygf.swan.ac.uk neu wrth ddilyn @Gymfeddygol ar twitter neu wrth gysylltu ag AIorwerth@aol.com

*I.P.*

## Anrhydedd arall i Fardd Cenedlaethol Cymru

Yn ogystal â bod yn Fardd Cenedlaethol Cymru mae Gillian Clarke, a anwyd yng Nghaerdydd ac sy'n byw yn Nhalgarreg ger Llandysul bellach, yn cael eu hurddio i'r Urdd Ofydd yn Eisteddfod Wrecsam ar y 5 Awst. Llongyfarchiadau mawr iddi. Ganwyd ei mam yng Nghoedpoeth ger Wrecsam.


BAY Resourcing

Asiantaeth Cyflenwi Athrawon



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol gallwn gynnig:

Gwaith Rheolaidd
•
Amserlenni a dyddiadur ar-lein
•
Cyfraddau dyddiol cystadleuol
•
Lwfans Teithio a Chinio

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE


## Rysáit Mis Gorffennaf



**Ffritata tatws Sir Benfro a bacwn baedd gwyllt**

**gan Ymgynghoriaeth Bwyd Howel**

I weini: 4 - 6
Amser paratoi: 25 munud

450g/1 pwys tatws Sir Benfro, wedi'u coginio yn eu crwyn a'u torri'n dafelli trwchus
1 genhinen, wedi'i golchi a'i sleisio'n denau
25g/1 owns menyn
225g/8 owns bacwn baedd gwyllt, wedi'i dorri'n stribedi 2cm
6 ŵy maes mawr
100g/4 owns caws Cheddar aeddfed, wedi'i gratio
Halen Môr Môn a phupur du newydd ei falu

Torrwch yr wyau i mewn i bowlen fawr. Sesnwch ag ychydig o halen môr a phupur du newydd ei falu. Curwch yn ysgafn a'i roi i'r neilltu.

Mewn ffreipan wrth-lynu, coginiwch y cennin nes eu bod yn feddal ac yn euraid. Tynnwch nhw o'r ffreipan. Ailgynheswch y ffreipan a choginio'r bacwn nes iddo ddechrau crisbio. Rhowch y cennin nôl yn y freipan ac ychwanegu'r tatws. Cynheswch drwyddo ac yna arllwyswch yr wyau drosto a'i goginio dros wres isel am ryw ddeng munud. Taenwch y caws drosto a'i roi o dan gril gynnes nes y bydd yn euraid ac yn codi'n swigod.

Gweinwch gyda salad crisb dail gwyrdd a thomatos ceirios melys.

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org

### Ffwrnais Awen yn perfformio 'O Dan y Don'

Mae pawb yn hapus yn byw o dan y don, ond mae Seren y fôr-forwyn yn dyheu am gael profi bywyd ar y pridd. Tybed sut bydd creaduriaid y môr yn ymdopi pan fo pobl y tir mawr yn ceisio chwalu eu byd?
Nos Sul, Gorffennaf 17 a Nos Lun, Gorffennaf 18 / 6pm
Tocynnau £6: Swyddfa docynnau Canolfan y Mileniwm 029 20 636464 / www.wmc.org.uk

### Cynlluniau Gofal Gwyliau'r Haf

Ysgol Melin Gruffydd: Gorffennaf 25 – Medi 2 (6wythnos)
Ysgol Treganna: Gorffennaf 25 – Awst 26 (5 wythnos).
8.30am – 5.30pm. £15 y diwrnod
Croeso i ddisgyblion o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6.
Tripiau, gweithdai, ymweliadau, gweithgareddau crefft a choginio, chwaraeon ayyb
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â marirhys@mentercaerdydd.org

### Bwrlwm - Chwarae Rhydd i Blant am ddim!

Dydd Llun, Gorffennaf 25 - Dydd Gwener, Awst 12
Bwrlwm y Tyllgoed: Ysgol Coed y Gof 10.30am - 12.25pm
Bwrlwm Caerau: Ysgol Nant Caerau 1.30pm - 3.25pm
Bwrlwm Sblot: Ysgol Glan Morfa 10.30am - 12.25pm
Bwrlwm Llanedyrn: Ysgol y Berllan Deg 1.30pm - 3.25pm
Croeso cynnes i blant 4-12 oed sy'n mynychu addysg Gymraeg. Does dim angen cofrestru o flaen llaw, dim ond dod ar y diwrnod! Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim.

### Cyfarfodydd Rhieni Newydd

Mae staff y Fenter wedi bod yn mynd o amgylch ysgolion cynradd Cymraeg y ddinas dros yr wythnosau diwethaf yn siarad yng nghyfarfodydd rhieni newydd y dosbarth derbyn ym mis Medi. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn gyfle gwych i gyfarfod â'r rhieni newydd a rhoi gwybod iddyn nhw pa wasanaethau mae'r Fenter yn eu cynnig.

### Hwyl yr Haf

Dydd Llun, Awst 8 - Dydd Gwener, Awst 12
Caeau Pontcanna 10.30am - 12.25pm
Parc Hayley, Ystum Taf 2pm – 3.55pm
Llu o weithgareddau am ddim ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 i 6. Gemau dŵr, Barbiciw, Celf a Chrefft, Chwaraeon, Sgiliau Syrcas a llawer mwy… Does dim angen cofrestru, dim ond dod ar y diwrnod!

### Gŵyl Ddysgu'r Haf Caerdydd, 2011

Mae'r Fenter yn cynnig y cyrsiau canlynol ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 fel rhan o Ŵyl Ddysgu Haf Cyngor Caerdydd eleni.
Clwb Glee: Gorffennaf 25 a 26 - Gwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd: £5
Coginio: Gorffennaf 27 a 28 Ysgol Plasmawr, Y Tyllgoed: £10
Syrffio: Gorffennaf 28 - Traeth Llangennydd, Gŵyr: £5
Coluro: Gorffennaf 29 - Swyddfa Menter Caerdydd: £5
Cerdded Afon: Awst 3 - Canolfan Antur Storey Arms: £5
Rhaid cofrestru o flaen llaw drwy fynd ar wefan y Cyngor – www.caerdydd.gov.uk/dysguhaf

### Ffarwelio â Meleri

Rydym wedi ffarwelio â Meleri Beynon, ein Swyddog Gofal ddiwedd mis Mehefin. Yn ystod ei chyfnod gyda'r Fenter, mae'r Cynlluniau Gofal wedi mynd o nerth i nerth, a byddwn yn sicr o golli bwrlwm a brwdfrydedd Meleri yn y swyddfa! Pob hwyl i ti'n UWIC ym mis Medi Meleri! Mae Mari Rhys eisoes wedi cymryd yr awenau gan Meleri, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithio â hi. Croeso mawr i ti Mari!

### Anrhydedd i Gyfarwyddwr Ffilm

Llongyfarchiadau i Marc Evans o Dreganna, y Cyfarwyddwr Ffilm, ar ennill anrhydedd gan Brifysgol Morgannwg, sef gwobr 'Cyfrwng' er mwyn cydnabod ei gyfraniad clodwiw i'r byd academaidd a'r diwydiant creadigol ym myd ffilm a theatr.

## Yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro

Mae'n gyfnod prysur a diddorol yn yr Urdd yn y brifddinas ar hyn o bryd.
Dros y mis mae nifer enfawr o weithgareddau cyffrous wedi bod yn digwydd.
Cafodd ysgolion yr ardal lwyddiant anferthol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni gyda llu o wobrau yn gwneud eu ffordd nôl yn nwylo cystadleuwyr talentog iawn. Llongyfarchiadau i bawb, a diolch i bawb ddaeth i gefnogi. Hyfryd oedd gweld Adran newydd yr ardal "Adran Salem" yn mwynhau ei chyfle cyntaf i berfformio yn yr Eisteddfod.

Cychwynnwyd cynllun gŵyl haf Sulgwyn eleni ar y cyd gyda Gwersyll yr Urdd yn y bae. Nod hyn oedd cynnig diwrnodau hwyl o weithgareddau yn ystod y gwyliau gan gymryd mantais o'r cyfleusterau arbennig sydd gyda ni yn y gwersyll ac o gwmpas y bae. Ar ben hyn cynigwyd ymweliad ar gyfer dysgwyr Cymraeg cynradd i faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd er mwyn codi ymwybyddiaeth o hwyl yr Eisteddfod. Cafwyd amser arbennig gan bawb a diolch i Lisa, Llio, a Llinos.

Mae diwrnod hwyl cynradd y fro yn digwydd gyda 150 o blant yn dod i fwynhau amryw o weithgareddau Cymraeg.

Mae'r chwaraeon dal yn mynd yn ei flaen gyda chystadleuaeth criced yr Urdd yn digwydd ar 4 a 5 Gorffennaf yng ngerddi Castell Caerdydd. Mae 24 tîm wedi cofrestru a phawb yn sicr o gael amser da.

Fe fydd nifer o ddisgyblion yr ardal yn ymweld â Llangrannog o fewn yr wythnosau sydd i ddod i fwynhau'r holl weithgareddau sydd gan y gwersyll i'w gynnig.
Mae trefniadau hefyd yn parhau ar gyfer taith tramor yr Urdd i Sbaen ar gyfer blwyddyn 9 a 10. Cafwyd cyfarfod rhieni llwyddiannus iawn ac mae pawb yn edrych ymlaen at lygedyn o heulwen!



# Ysgol Gyfun Glantaf

Cafwyd llwyddiant mawr eleni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Llongyfarchiadau mawr i'r cerddor talentog Charlie Lovell-Jones o flwyddyn 7, a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Unawd Llinynnol Bl 7-9, ac yn ail gyda'r Unawd Piano Bl 7-9. Roedd hefyd yn rhan o'r Ensemble Bl. 7-9 a ddaeth yn fuddugol, oedd hefyd yn cynnwys Gwenan Jenkins-Jones, Krystof Gibbon, a Huw Howells. Cafwyd yr 'hat-tric' gyda'r grwpiau offerynnol ble cafodd yr Ensemble Hŷn a'r Gerddorfa gyntaf yn eu cystadlaethau nhw. Cafwyd llwyddiant mawr hefyd i'r corau ble cipiodd y bechgyn y wobr gyntaf am y Côr Bechgyn T.B. Bl 13 ac iau, a'r merched yn ail gyda'r Côr Merched S.A. Bl 13 ac iau. Ar ben yr holl lwyddiant, cafodd y Tîm Siarad Cyhoeddus eu gwobrwyo yn gyntaf am eu cyflwyniadau a dadlau difyr, a oedd yn cynnwys Carwyn Graves, Dewi Preece, Rhys Patchell a Rebecca Thomas. Diolchwn yn fawr i'r disgyblion am eu hymroddiad a'u hamser wrth ymarfer, yr athrawon am eu gwaith caled, ac i'r rhieni am eu cefnogaeth ac am wneud y daith i Abertawe.

### Ffarwelio

"Mwynha'r gwyliau! Wela' i di nôl 'ma ym mis Medi."

Y cyfarchiad arferol ar ddiwedd tymor. Ond nid i bawb o staff Glantaf. Y mae pum aelod yn ein gadael ac yn dechrau ar gyfnod newydd. Mae Mrs Carys Burston, Pennaeth Drama, a Mrs Vanessa Priestley, Cydlynydd AAA yn ymddeol. Mae Vanessa am fynd i China i rannu ei phrofiad addysgol helaeth dan gynllun VSO, a Carys am ail-gydio mewn diddordebau a esgeuluswyd ynghanol prysurdeb byd gwaith.

Dymunwn yn dda i A. Schiavone sy am deithio a dysgu Saesneg dramor ac i Dona Jones, Pennaeth Mathemateg wrthi iddi ymuno â staff Ysgol John Brigh.t Llandudno. I Ysgol Llangynwyd, Maesteg mae Meurig Jones yn mynd, yn Bennaeth Cynorthwyol.

Ac i weddill y staff, diolch am flwyddyn dda o waith caled, mwynhewch y gwyliau ac fe welwn ni chi ym mis Medi!

# Ysgol Gymraeg Coed y Gof

### Eisteddfod yr Urdd

Bu nifer o'n plant yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn Abertawe. Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp dawnsio creadigol ac i'r band roc 'Gofod' am berfformiadau arbennig. Maent wedi bod yn ymarfer yn ddiwyd ers misoedd bellach ac wedi rhoi o'u gorau ymhob perfformiad. Diolch arbennig yn ogystal i bawb a fu'n cynorthwyo yn enwedig Miss Enfys Emlyn a Mr Dan Lawrence am yr oriau lawer o hyfforddi a'u hamynedd ac ymroddiad diffuant. Gwerthfawrogwn yn ogystal gefnogaeth a chymorth parhaus y rhieni, sydd mor barod i gludo'r plant i'r holl ymarferion ac i'r Eisteddfodau.

### Y Bws Cerdded Enfawr

Fore Mercher 15 Mehefin am 10 o'r gloch, aeth yr ysgol gyfan ar daith o amgylch Pentrebaen i godi arian ar gyfer elusen 'Brake', elusen sy'n casglu arian ar gyfer y teuluoedd sydd wedi colli rhywun mewn damwain ffordd. Aeth dros 350 o blant, staff, rhieni a menywod cinio'r ysgol am dro gydag arwyddion a phosteri i dynnu sylw cerbydau at bwysigrwydd gyrru'n ofalus ac arafu. Daeth yr heddlu lleol i helpu gyda'r daith ac i arwain y ffordd. Casglwyd dros £170 ac rydym yn gobeithio y byddwn yn medru helpu i dorri record y byd gyda'r 'Bws Cerdded' mwyaf. Diolch i bawb am gymryd rhan ac am gyfrannu tuag at yr elusen.




### Ffarwelio

Byddwn yn ffarwelio ar ddiwedd y tymor â Miss Rachel Rawlins a fu'n gweithio yma fel cynorthwywraig gydol y flwyddyn. Diolchwn iddi am ei holl waith caled a'i chefnogaeth gyson tuag at waith yr ysgol a chyrhaeddiad y plant, a dymunwn yn dda wrth iddi gychwyn ar gwrs dysgu yn Llundain.

Pob hwyl a dymuniad da hefyd i Miss Charlotte Christo a fydd yn cychwyn ar gyfnod mamolaeth ddiwedd y tymor.

### Gwobr Bafta i Matthew Rhys

Llongyfarchiadau i Matthew Rhys gynt o'r Eglwys Newydd ar ennill Tlws Siân Phillips yn seremoni Bafta Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm ar y 29 Mai. Rhoddir y wobr i gydnabod cyfraniad sylweddol actor neu actores ym myd y ffilm a theledu.

### Cadeirydd Newydd i S4C

Ar 7 Mehefin cadarnhawyd penodiad Huw Jones gynt o Lanrhymni fel Cadeirydd newydd S4C. Cafodd ei addysgu yn Ysgol Gymraeg Bryntaf ac Ysgol Uwchradd Caerdydd cyn iddo fynd i astudio Ffrangeg yn Rhydychen. Bu'n brif weithredwr cwmni S4C rhwng 1994-2005 a chyn hynny sefydlodd gwmni recordio Sain gyda Dafydd Iwan. Mae'n wynebu her anferth a dymunwn yn dda iddo wrth i'r sianel frwydro am ei bywyd oherwydd penderfyniadau dadleuol llywodraeth Llundain.

# Ysgol Melin Gruffydd

### Eisteddfod yr Urdd Abertawe

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Chapman o flwyddyn 4 a gipiodd y wobr gyntaf ar yr unawd piano dan 12 yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, ac i'r tîm dawnsio gwerin dan 10 a lwyddodd i ennill y drydedd wobr.






### Gŵyl Plant Morgannwg

Cafwyd diwrnod hyfryd o ddawnsio gwerin yng Ngŵyl Plant Morgannwg yn ystod mis Mehefin. Roeddem yn ffodus iawn o ran y tywydd a chafwyd llawer o hwyl wrth ddawnsio'n gymdeithasol ag ysgolion eraill.

### Côr yr ysgol

Mae'r Côr wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn perfformio yng Nghanolfan y Mileniwm yn ystod Baylingo a chanu i'r henoed yng Nghapel Bethel, yr Eglwys Newydd. Da iawn chi!

### Wythnos iach a brecwast *'Bike it'*

Yn ystod wythnos 13 Mehefin cynhaliwyd Wythnos iach yn yr ysgol gyda phlant pob dosbarth yn gwneud gweithgareddau megis creu smwddis ffrwythau, coginio bwyd iach a chreu posteri i hyrwyddo Cadw'n iach. Cafwyd brecwast *'Bike it'* yn ystod yr wythnos hefyd i'r plant oedd wedi seiclo i'r ysgol. Roedd rhaid iddynt bedlo'r beic er mwyn gweithio prosesydd bwyd i greu smwddis i'w hyfed!

### Aquathlon yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Tegid Phillips, Blwyddyn 4 ar lwyddo i ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Aquathlon yr Urdd yn Aberystwyth. Roedd yn rhaid iddo nofio 100m a rhedeg 1000m. Ardderchog Tegid!

# Ysgol Pen-y-Garth

Heb os, uchafbwynt y tymor os nad y flwyddyn i Ysgol Pen-y-Garth eleni oedd dod yn ail yng nghystadleuaeth yr ymgom yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Dyma'r tro cyntaf i ni gystadlu ers blynyddoedd. Wedi gweld fod 16 ysgol arall yn cystadlu yn ein herbyn roedd rhaid gwneud ein hymdrech orau erioed i gyrraedd y llwyfan. Roedd Aron Arthur, Hana Evans, Manon Ogwen Parry ac Isaac Richards ar bigau'r drain wrth aros am ganlyniad y rhagbrofion. Dyna gyffro wrth weld ein henwau ar y rhestr! Roedd y perfformiad yn ddigon o sioe gyda dialog bywiog a golygfa ymladd wedi ei chynllunio'n gelfydd i gerddoriaeth *Pirates of the Carribean*. Roedd yn deimlad gwefreiddiol clywed fod yr ysgol wedi dod yn ail. Diolch i Mr Tomos a Sophie am hyfforddi.

### Buddugoliaeth Ysgubol

Ddydd Mawrth, 24 Mai bu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu yn nhwrnamaint rygbi Ysgol St Joseph. Yn ein gemau grwpiau fe lwyddom i ennill ein tair gêm yn erbyn Ysgol Murch 20-0, Ysgol Evenloade 30 - 0, ac Ysgol Albert 40 -0.

Yna yn y rownd gynderfynol fe drechom Ysgol St Josephs o 26 - 0 ac yn y rownd derfynol chwaraeom Ysgol Murch unwaith eto a'u trechu 50-5! Rhagorol!

Croeso mawr i Efa Mai a gafodd ei geni yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Roedd plant blwyddyn 2 wedi dotio pan ddaeth Miss Williams i ymweld.

### Bardd Plant Cymru

Mae cyfnod Dewi Pws fel Bardd Plant Cymru wedi dod i ben ac yn Eisteddfod yr Urdd eleni cyhoeddwyd ei olynydd, sef Eurig Salisbury. Cafodd ei eni yng Nghaerdydd cyn i'r teulu symud i'r gorllewin.

# Newyddion y Mynydd Bychan

Wrth i ddyddiau tymor yr Haf agosáu at eu terfyn, rhannwn ychydig o hynt a helynt disgyblion gweithgar yr adran iau. Mae plant blwyddyn 6 yn hynod o brysur yn paratoi ar gyfer dau ddigwyddiad o bwys, sef Menter a Busnes a'r sioe diwedd blwyddyn.

Ar gyfer y Ffair Haf bu'r plant yn tynnu lluniau ffotograff o'r ardal leol gyda'r arbenigwr Jake Morley, sydd yn rhiant yn yr ysgol, ac yna eu fframio i werthu. Mae'r gwaith celf yn wledd i'r llygad a dymunwn yn dda iddynt wrth werthu a gwneud elw ariannol i goffrau'r ysgol!

Mae'r ymarferion ar gyfer eu sioe yn bwrw ati o dan arweiniad eu hathro Iolo Williams, gyda chymorth Elvira Griffiths. Byddant yn perfformio'r ddrama gerdd '3,2,1' gan Cefin Roberts a Gareth Glyn yn neuadd Ysgol Glan Taf ym mis Gorffennaf.

Daeth Rick o 'GQ Parachutes', Penybont i siarad â blwyddyn 5 & 6 am y gamp o barasiwtio. Mwynhaodd y plant weld yr offer amrywiol yn ogystal â'r DVD. Synnwn i ddim petai rhai ohonynt yn teithio i faes awyr Abertawe yn y dyfodol agos i neidio allan o awyren er mwyn cael cyfle go iawn!

Fel rhan o'u gwaith ABCh, daeth y nyrs i flwyddyn 4 i gyflwyno'r 'Bygiau Baco', cymeriadau sydd yn rhybuddio'r plant am beryglon ysmygu.

Mae cyffro ym mlwyddyn 4 ar hyn o bryd, gan eu bod yn paratoi i fynd ar eu hymweliad preswyl ag Ynys Echni, sydd ynghlwm â'u gwaith Addysg Datblygu Cynaliadwy. Gobeithiwn am dywydd braf iddynt!

Da nodi fod Mrs Catrin Evans, blwyddyn 3, wedi ymsefydlu'n llwyr ym mywyd yr ysgol yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Bullen. Dymunwn longyfarch Non a Chris Bullen ar enedigaeth eu hail blentyn, Alys Megan – chwaer fach i Wil.

Bu blwyddyn 3 ar ymweliad â'r Amgueddfa Lleng Rhufeinig yng Nghaerllion fel rhan o'u hastudiaethau Hanes. Cawsant y cyfle i wisgo Toga's, peintio'u cyrff ac yna ymladd yn yr Amffitheatr, gan esgus mai Celtiaid a Rhufeiniaid oeddent!

Braint oedd croesawu un o lywodraethwyr yr ysgol, Dr Phyl Ellis, i arsylwi ar sesiwn 'Amser Ni' yn ddiweddar, a da nodi fod y sesiynau hyn yn profi'n llwyddiannus yn yr ysgol.

Cawn hanes y Cyfnod Sylfaen yn ein rhifyn nesa'!

# Ysgol Pencae

**Cwis y Ffordd Fawr**
Llongyfarchiadau gwresog i'r tîm ar dderbyn y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth hon o fewn Sir Caerdydd. Ar ôl cystadleuaeth frwd o ateb cwestiynau heriol am ddiogelwch y ffordd; Imogen, Ysella, Cerys, Cory a Callum a lwyddodd i gael y marciau uchaf a chipio'r darian! Yn ogystal â hyn, daethon nhw'n gydradd drydydd trwy Dde Cymru yn y rownd olaf ym Mhen-y-bont. Tipyn o gamp!




## Canwr y Byd
Daeth Servan Vasile o Rwmania ac Enzo Romano o Wrwgwai atom ni fel rhan o'r gystadleuaeth hon. Braf oedd gallu perfformio iddyn nhw ynghyd â chael y cyfle i'w holi am eu profiadau canu. Dilynon ni'r gystadleuaeth ar wefan y BBC a dysgon ni lawer am gerddoriaeth ac am y cantorion hefyd.

## Cystadleuaeth Sbwriel Caerdydd
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 5 am ennill gwobr am berfformio cân ar thema ailgylchu yn Neuadd y Ddinas yn ddiweddar. Cynhaliwyd pob math o weithgareddau a chystadlaethau'n ystod y diwrnod hwn a braf oedd gallu dawnsio i guriad rap ailgylchu!

## Gwyddoniaeth yn y gymuned
Aeth disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 i labordy mewn ffatri enfawr yng Nghaerdydd. Diddorol oedd arbrofi gydag offer go iawn wrth ymchwilio i asidau ac alcalïau ynghyd ag effaith burum wrth bobi bara. Dyma brofiad gwerth chweil!

## Wythnos Tsieineaidd
Cynhaliwyd Wythnos Tsieineaidd gyda disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 5 dan ofal dwy athrawes o'r Brifysgol yn ddiweddar. Dysgon nhw sut i gyfrif yn yr iaith Mandarin, ysgrifennu eu henwau, creu masgiau, cyfarch ei gilydd, ynghyd â sut i symud yn null Tai Chi.

# Ysgol y Wern

**Pencampwyr Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau mawr i dîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 4 a enillodd y Rownd Genedlaethol yn Aberystwyth ar Fehefin 16. Ar ôl treulio diwrnod prysur iawn yn y Neuadd Gelfyddydau yn trafod a pherfformio, braf oedd gweld ffrwyth llafur yr holl baratoi yn dod i ben ar ddiwedd y prynhawn gyda disgyblion y Wern yn cael eu coroni'n Bencampwyr Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm Cwis Llyfrau Saesneg Blwyddyn 5 am ennill y gystadleuaeth yn y Sir. Fe fyddant nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Rownd Genedlaethol yn Aberhonddu ar ddiwedd y mis. Pob lwc iddynt i gyd.

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gynrychioli'r ysgol a Rhanbarth Caerdydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe. Un o uchafbwyntiau'r wythnos, heb os ac oni bai, oedd ennill y Gân Actol ar y Nos Lun. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gymryd rhan. Ni fydd y plant yn anghofio'r profiad o gael canu ac actio ar lwyfan y Genedlaethol. Da iawn chi blant. Daeth llwyddiant eto i'r Wern ar y Dydd Mawrth canlynol pan ddaeth y Tîm Dawnsio Disgo yn ail. Llongyfarchiadau i chithau hefyd am eich perfformiad egnïol.

## *Cydymdeimlwn â:*

...theulu'r diweddar Fred Dyer, Rhiwbeina a fu farw yn ei gartre yn sydyn ar 8 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlosgfa Llanelli ar 17 Mehefin.
...y diweddar Lynda Roberts, Rhiwbeina a fu farw'n dawel ar 10 Mehefin yn ysbyty Felindre ar ôl cystudd creulon. Bu'r angladd yng nghapel y Crwys ar 23 Mehefin ac wedi hynny yn amlosgfa'r Ddraenen.
...theulu'r diweddar Mabel Jones, Cwmdâr a fu farw'n dawel yng nghartref nyrsio Beeches yn Aberdâr ar 19 Mai. Bu'r angladd yn Amlosgfa Llwydcoed, Aberdâr ar 26 Mai.

# Ysgol y Berllan Deg

## Ymwelwyr
Daeth y Parchedig Owain Llŷr i sgwrsio gyda Blwyddyn 2 am fedyddio a chynnal gwasanaeth ysgol gyfan. Hefyd, daeth Erin Roberts, un o gyflwynwyr y tywydd ar S4C, i drafod y tywydd gyda Blwyddyn 3.

## Cystadlu
Llongyfarchiadau mawr i Thomas Felix-Richards am ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe am ddawnsio hip hop. Rydym i gyd yn falch o dy lwyddiant.

## Ymweliadau addysgiadol
Mwynhaodd Blwyddyn 6 eu pererindod flynyddol i'r *Imperial War Museum*, Llundain a phrofi'r *'Blitz Experience'*.

## Lesotho a Mabolgampau
Cafwyd diwrnod bendigedig i godi arian tuag at Ysgol St. Paul's, ButheButhe, Lesotho wrth i'r disgyblion gasglu pwyntiau tuag at eu tîm mabolgampau. Erbyn diwedd y dydd llwyddwyd i godi swm anrhydeddus o £500. Diolch i bawb am bob dimau goch.

## Cywion
Cyn gwyliau'r hanner tymor, bu'r Dosbarthiadau Derbyn yn brysur tu hwnt yn edrych ar ôl 15 o gywion wnaeth ddeor. Nawr, maent yn edrych ymlaen at weld faint o hwyaid wnaiff ddeor o fewn yr wythnosau nesaf!

## Cyfarchion
Dymunwn yn dda i ddisgyblion Blwyddyn 6 fydd yn ein gadael ddiwedd y tymor. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Ceri Jones a Mr Gethin Jones ar enedigaeth Dafydd Môn Jones.

### *Enillydd Cadair Eisteddfod yr Urdd, Abertawe*
Llongyfarchiadau i Llŷr Gwyn Lewis ar ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd eleni am yr ail dro yn olynol. Brodor o Gaernarfon yw Llŷr ond mae e wedi ymgartrefu yma yng Nghaerdydd ers tro bellach.

# Ail-fyw rhaglen gyntaf *Songs of Praise*

Credwch neu beidio bydd *Songs of Praise* yn dathlu 50 mlynedd ers darllediad cyntaf y rhaglen o Dabernacl yr Ais, Caerdydd. Er mwyn cofnodi'r achlysur, bydd rhaglen arbennig *Songs of Praise* ganol Medi yn dod o Gaerdydd, gyda chôr Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn gwneud ymddangosiad arbennig yn ddwyieithog. Cofiwch wylio!

## Gwyrth y Nodwydd Fain



Mae mwy a mwy o bobl ym mhob cwr o'r byd yn troi at ddulliau amgen o ofalu am eu hiechyd, ac nid yw Cymru'n wahanol. Fis Mawrth eleni, fe sefydlwyd clinig newydd ym Mhenarth, i gynnig triniaethau aciwbigo (*acupuncture*) traddodiadol.

Meddai Gwenan Evans, yr aciwbigydd: "Mae llawer o bob yn dod i gael triniaeth aciwbigo er mwyn helpu gyda chyflyrau neu symptomau penodol megis poen cefn, gwynegon neu gur pen. Daw eraill am eu bod eisiau cynyddu eu lefelau egni cyffredinol ac i deimlo'n well ynddynt eu hunain".

Gall aciwbigo fod o help arbennig i bobl yn ystod cyfnodau o newid neu densiwn yn eu bywydau. Mae'n driniaeth holistaidd ac addfwyn, yn addas i bob oedran, yn cynnwys babanod a phlant, a gellir ei ddefnyddio'n ddiogel ochr yn ochr â meddygaeth gonfensiynol.

Datblygwyd aciwbigo yn y dwyrain pell, ac fe'i ddefnyddiwyd yno ers canrifoedd, er mwyn gwella a chynnal iechyd a lles miliynau o bobl. Bellach mae'r dechneg wedi hen ennill ei phlwyf yn y gorllewin hefyd, ac fe'i hystyrir yn system gofal iechyd ddiogel a hynod effeithiol. Mae dros 3,000 o aciwbigwyr cymwysedig wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Aciwbigo Prydeinig (Bac), sef y corff sy'n rheoli'r proffesiwn yn y wlad yma. "Mae'r hyfforddiant yn drylwyr a llym", meddai Gwenan. "Gall unrhyw un sy'n mynd at aciwbigydd gyda'r llythrennau MBAcC yn gysylltiedig â'i enw fod yn dawel eu meddyliau fod y driniaeth yn gwbl safonol".

Am fwy o wybodaeth, gellir cysylltu â Gwenan ar 07816 878117 neu drwy e-bostio aciwbigo@gwenanevans.com.



## Telynau Ysgol Pwll Coch



Ensemble telynau Ysgol Pwll Coch yn perfformio yn Eisteddfod yr Urdd, o dan hyfforddiant Siân Wynne.

### *Pob Lwc…*

... i'r disgyblion hynny sydd yn teithio i'r Alpau Ffrengig yn ystod yr Haf i ddilyn y GR54 fel rhan o radd Aur Cynllun Dug Caeredin. Pob dymuniad da a diolch enfawr i Mr Aled Morgan am drefnu, ac i'r staff sydd yn cadw cwmni i ddisgyblion Plasmawr.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl am Mrs Olwen Davies (Dinas Powys). Hi, bellach, oedd ein haelod hynaf. Daeth atom o Ddinbych, ryw bedair blynedd yn ôl, ac roedd yn mynychu'r oedfaon yn rheolaidd tan yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu a'i chyfeillion.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i **Alys** a anwyd ar 18 Mehefin i Bethan a Huw Bannister; wyres i Meinir ac Arwel Thomas. Dymuniadau da i'r teulu.

**Dadorchuddio Carreg Goffa**

Daeth oedfa bore 5 Mehefin â llawer o atgofion melys i o aelodau wrth ddadorchuddio carreg goffa i'r diweddar Barchedig W Eifion Powell (1934 - 2009). Braf oedd croesawu'r teulu yn ôl i'n plith ar gyfer y digwyddiad. Bu Eifion Powell yn Weinidog ar Eglwys Minny Street am ddau gyfnod, 1984-1989 a 1999-2002. Mawr fu ei ddylanwad fel bugail, ysgolhaig a chyfaill. Cafwyd oedfa yn llawn symlrwydd, tawelwch a llawenydd – yn unol â'r hyn y tybir y byddai Eifion ei hun wedi'i ddymuno. Nodwyd mai gorau Eifion Powell oedd daioni'r Arglwydd Iesu ynddo a thrwyddo. Neges a her ein Gweinidog yn yr oedfa arbennig oedd ar i ni goffáu gan ganmol Iesu - yr hwn a fu'n Arglwydd ac yn Waredwr i Eifion, yr hwn y bu Eifion yn sôn yn dda amdano, trwy gydol ei weinidogaeth.

**Dymuno'n dda i Katerina**

Cawsom gyfle ar ddiwedd yr Oedfa Foreol Gynnar ar Sul y Pentecost i ddymuno'n dda i Katerina Jonathan, un o'n criw myfyrwyr, a dderbyniwyd i fod yn un o gynrychiolwyr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng nghynllun *Bruggen Bouwen – Adeiladu Pontydd* CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang) Ewrop. Bydd yn un o'r 30 o bobl ifanc a fydd yn cynrychioli Cristnogion Ewrop yn y Tŷ Cenhadol yn Amsterdam dros yr haf. Wrth ddymuno'n dda i Katerina cyflwynodd ein Gweinidog Feibl a Llawlyfr iddi. Byddwn, fel eglwys, yn cofio amdani yn ein gweddïau.

Am holl newyddion diweddaraf Minny Street ewch i www.minnystreet.org.



Eglwys Minny Street: Y Parchg Owain Llyr yn dymuno'n dda i Katerina Jonathan

## Ebeneser

**Llongyfarchiadau…:**
…i Gwenan, Robert a Catrin Young, y Rhath ar enedigaeth merch fach, sef Bethan ar 7 Mai.

…i Gwenllïan ac Ynyr Roberts, Treganna, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, sef Deio Glyn, ar 5 Mehefin.

Dymunwn fendith y nef yn helaeth ar y ddau deulu i'r dyfodol.

**Enfys Gobaith**
Rydym fel eglwys yn casglu bwydydd yn fisol tuag at waith ymgeiswyr lloches Enfys Gobaith yng Nghaerdydd. Hefyd bydd tîm o aelodau yn dechrau helpu gyda'r *Paradise Run* i helpu bwydo'r digartref. Mae'r cynllun hwn yn weithredol am 8 pob noson o'r flwyddyn ar Heol Siarl gyda 40 o eglwysi lleol yn rhan o'r gwaith.

**Sefydlu Archesgob**
Caewyd Heol Siarl i drafnidiaeth arferol ar ddydd Llun 20 Mehefin oherwydd sefydlu Archesgob Catholig newydd Cymru, sef y Parchg George Stack a ddaeth atom o Westminster. Fe'i penodwyd i'r gwaith gan y Pab Benedict XVI fel olynydd i'r Parchg Peter Smith. Hyfrydwch i ni fel eglwys oedd cael bod o gymorth i'n cyfeillion trwy roi benthyg ein hadeilad iddynt. Defnyddiwyd y festri gan yr offeiriaid i wisgo a'r capel ar gyfer cynulleidfa ychwanegol lle y gellid gwylio'r oedfa o'r Gadeirlan yn fyw ar sgrîn fawr.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gydag Alun, Gweneth, Ioan a Gruffydd Evans yn eu profedigaeth lem. Bu farw tad Alun yn ddiweddar ar ôl brwydr hir gyda chancr.

Cydymdeimlwn gyda Hywel, Delyth a Beca Davies yn eu profedigaeth lem. Bu farw tad Hywel yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'r ddau deulu yn eu colled a'u hiraeth gan eu cyflwyno yn dyner i'r Arglwydd yn ein gweddïau.

**Canolfan yr Eglwys Newydd**
Cynhaliwyd oedfa fore Sul Ebeneser 19 Mehefin yng Nghanolfan Gymunedol yr Eglwys Newydd. Cafwyd bore bendithiol a hwyliog wrth addoli'r Arglwydd gyda'n gilydd. O fis Medi ymlaen byddwn yn addoli yno ar fore'r trydydd dydd Sul o bob mis. Dewch i fod yn rhan o'r cyffro.

## Eglwys Dewi Sant

**Musica Italiana**
Dyma deitl cyngerdd pleserus a gynhaliwyd yn yr Eglwys nos Sadwrn 11eg o Fehefin gan y St Donat's Atlantic Chorale. Mwynhawyd cerddoriaeth hyfryd o waith, ymhlith eraill, Handel Bellini ac Iglazio Donati ond yn bendant uchafbwynt y noson oedd y Gloria gan Vivaldi. Cafodd y gynulleidfa deilwng ei phlesio'n fawr a llwyddwyd i godi swm da o arian ar gyfer y gwaith o adnewyddu rhagor o do yr eglwys.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'r Parchedig Tim a Gwendraeth Morgan a'r teulu cyfan ar farwolaeth chwaer Tim, Eileen Morgan.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Colin a Helen Chapman ar enedigaeth Erin Hefina, wyres gyntaf Hugh a Gwenda Williams.

## Eglwys y Crwys

**Bedyddio**
Fore Sul Mehefin y 5ed bedyddiwyd gan ein Gweinidog Mathew Parry, mab bach Rhiannon a Julian Bill. Mae Mathew yn ŵyr i Gareth Lloyd Jones a'r diweddar Ann Lloyd Jones. Dymunwn yn dda iawn i'r teulu ar amgylchiad hapus iawn.

Yr un modd fore Sul Mehefin y 19eg bedyddiwyd gan ein Gweinidog, Anna, merch fach Nia a Mat Pope. Dymunwn iddynt hwythau'r un ysbryd o lawenydd a rennir ymhlith eu teuluoedd.

**Arddangosfa**
Nos Iau Mehefin 16eg cafodd aelodau'r Cwrdd Eglwys gyfle i ymweld ag arddangosfa yn Llyfrgell y Brifysgol i ddynodi cyhoeddi Beibl y Brenin Iago'r cyntaf yn y flwyddyn 1611, union bedwar can mlynedd yn ôl felly. Un o nodweddion y Beibl hwn oedd fod y Brenin am i'w gynnwys fod yn Biwritanaidd ei naws ac i raddau wedi ei ddylanwadu gan ei gefndir Presbyteraidd yn yr Alban. Cafwyd cyfle i weld nifer o wahanol gyfieithiadau o'r Beiblau mewn nifer o wahanol ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg. Daeth cyfle hefyd i daro llygaid ar eraill o gyfrolau a thrysorau'r Llyfrgell a ddaeth yn eiddo i'r Brifysgol trwy wahanol ffynonellau dros y blynyddoedd. Trefnwyd y noson gan yr Athro J. Gwynfor Jones ar y cyd gyda Peter Keelan, Pennaeth Casgliadau Arbennig ac Archifau.

**Wedi'r Oedfa**
Nos Sul Mehefin y 5ed wedi'r Cwrdd Nos cafodd yr aelodau a chyfeillion gyfle i wrando ar ddatganiad amrywiol gan Daniel Roddick o rai o weithiau lleisiol rhai o gyfansoddwyr amlycaf Ewrop. Mae Daniel ar hyn o bryd yn astudio cerdd yn yr Academi Frenhinol yn Llundain a'r profiad hwn o gael canu o flaen cynulleidfa yn rhan o'i gwrs. Dymuna'r eglwys yn dda iddo yn ei yrfa ddewisedig.

## Y Tabernacl

**Derbyn aelod newydd**
Bydd pawb sy'n adnabod Emma Walford Davies yn falch ei bod wedi dewis trosglwyddo ei haelodaeth o'i mam eglwys ym Mynydd Seion, Abergele atom yn y Tabernacl. Croesawn hi yn gynnes i'n plith.

**Priodas Rhuddem**
Llongyfarchwn Calan a Malcolm McGreevy ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Sul olaf mis Mai.

**Ymweliad Casalin a Mampela o Lesotho**
Edrychwyd ymlaen yn fawr at groesawu dwy o arweinwyr yr eglwys yn Sefika, sef Me Caselin a Mampela. Roedd y ddwy gyda ni rhwng Mehefin 16eg a'r 29ain.

**Cwrdd Blynyddol Cymdeithas y Chwiorydd**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol o Gymdeithas y Chwiorydd yn ddiweddar, ac ynddo cadarnhawyd bod y swyddogion presennol wedi cael gwahoddiad i barhau am flwyddyn arall. Bydd Mary Thomas a Delun Callow yn gweithredu fel cyd-lywyddion, Megan Morris yn rhoi trefn ar raglen y flwyddyn a Gillian Thomas yn cadw golwg ar y cyfrifon.

**Digwyddiadau**
Bu llu o ddigwyddiadau yn y Tabernacl yn ddiweddar, ac roedd olion llawer o waith paratoi yn Ffair Haf Cymorth Cristnogol. Cynhaliwyd sawl noson gerddorol hefyd, a braf oedd gweld Cyngerdd o dan nawdd y Coleg Cerdd a Drama, yn cyflwyno gwaith gan eu myfyrwyr. Gwerthfawrogwyd noson hwyliog adeg ymweliad *Talwrn y Beirdd* â'r brifddinas, wrth i'r BBC recordio dwy raglen.

**Cynllun y Drws Agored**
Bu'r Grŵp Cenhadu yn edrych ar sut i drefnu bod y cyhoedd yn cael cyfle i ddod i fewn i'r Tabernacl i weld, gorffwys neu weddïo. Bwriedir trefnu hyn fel arbrawf ar fore Sadwrn, rhwng 11 - 12 am.

**Songs of Praise. Sadwrn Mehefin 25ain**
Bu hanner can mlynedd ers sefydlu'r gyfes hon yn y Tabernacl yn 1961 gyda Mansel Thomas yn arwain ac Arwel Hughes wrth yr organ. Braint felly oedd derbyn gwahoddiad y BBC i ddarlledu'r rhaglen i ddathlu'r achlysur yn y Tabernacl.

## Salem, Treganna

**Ymweliad â Salem**

Yn ddiweddar fe wnaethom groesawu merched o fryniau Casia i'n plith, oedd ar ymweliad â Chymru am bythefnos o dan nawdd yr enwad. Ymwelwyd â Sain Ffagan ac fe fwynhawyd Miri mawl yn eu cwmni. Cawsom wasanaeth arbennig hefyd ar nos Sul yng nghwmni Côr Canna.

**Fforwm Cristnogaeth 21**

Roedd Salem yn falch o groesawu cynhadledd Fforwm Cristnogaeth 21 yn ystod y mis.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Cawsom nos Wener i'w chofio yn wir yng nghwmni Rhian Clarke, wrth i ni fwynhau sesiwn goginio a *Generation Game* wrth geisio dynwared y ryseitiau. Noson hynod o lwyddiannus ac yn llawn hwyl!

**Bedydd**

Bedyddiwyd Mared Lleucu, merch Trystan ac Eirian Edwards ar y 19eg o Fehefin. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Cymdeithasfa'r De**

Cynhaliwyd Cymdeithasfa'r De, Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Salem yn ystod mis Mehefin. Yr uchafbwynt oedd darlith gan y gwyddonydd enwog Syr John Houghton o Lundain.

**Criced**

Cawsom gemau hynod hwyliog yn erbyn staff Plasmawr a staff adran chwaraeon y BBC yn ystod mis Mehefin. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio gêm yn erbyn Cerddorfa'r BBC oherwydd y tywydd.

**Adran Salem**

Mae Adran Salem yn mynd o nerth i nerth, wrth gynnal llu o weithgareddau amrywiol bob nos Iau rhwng 6 a 7. Croeso i blant oed cynradd i ymuno â ni.

## Bethel, Rhiwbeina

Bu farw un o'n haelodau, Mr Fred Dyer, yn hynod o sydyn yn ei gartref Mehefin 8fed. Bu'n aelod ym Methel am chwe blynedd ers iddo symud o Lundain lle'r oedd yn weithgar iawn yn eglwys Chiltern Street. Cydymdeimlir yn fawr â'i deulu a'i ffrind Pat. Roedd yr angladd yn Amlosgfa Llanelli; yr oedfa yng ngofal y Parchedig Denzil John.

Priodwyd Nerys, merch Julie ac Wyn Jones yr Eglwys Newydd, â Dyfrig Frater o Drimsaran, gan y Gweinidog y Parchedig T. Evan Morgan.

Llongyfarchiadau i Lowri, merch Elspeth ac Ian Gwyn Hughes ar gael swydd yn Ysgol Melin Gruffydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Osian Jenaer ar ennill cystadleuaeth sgriptio drama i rai o dan 19 oed yn Eisteddfod yr Urdd.

# O'R PLAS

## Eisteddfod yr Urdd



**Cafwyd tipyn o lwyddiant gan blant Ysgol Plasmawr oedd yn cynrychioli'r Ysgol yn Abertawe .**

Bedwyr ap Ion, Ffion Roblin, Josh Morgan a Siwan Evans yn gyntaf yn yr ymgom iau,
merched dawnsio disgo Fflach yn drydydd yn y gystadleuaeth iau,
Maia Davies ail ar yr unawd marched,
Enlli Parri yn drydydd yn yr unawd chwythbrennau hŷn.

Cafodd nifer o'n disgyblion lwyddiant yn cynrychioli'r aelwydydd hefyd.

Daeth Siwan Evans yn ail yn y ddawns werin unigol i ferched wrth gynrychioli adran Bro Taf.

Roedd nifer o'n disgyblion yn Grŵp dawns stepio Adran Bro Taf a ddaeth yn drydydd wrth gystadlu yn erbyn oedolion! Campus!

**Criced**

Buddugoliaeth gampus i'r tîm staff yn erbyn cewri Capel Salem ar noson braf ar gae Ysgol y Gadeirlan. Sgoriwyd 91 o rediadau gan y Capel gyda nifer o gyfraniadau pwysig gan Mike Hayes, Trystan Edwards a Rhys Boore, ond seren y gêm oedd Aled Morgan a gymerodd 2 wiced a sgorio 60 o rediadau wrth i'r ysgol ennill o 3 wiced.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i'r grŵp Perfformio Cerdd Blwyddyn 11 a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth *Envirovision Song Contest* yn theatr y Savoy, Trefynwy wrth gyfansoddi a pherfformio cân o'r enw *Karmic boomerang* - cân am faterion amgylcheddol yn ôl y sôn!

Llongyfarchiadau hefyd i Cai Wilshaw, Indeg Williams, Siobhan Brennan a Rebecca Parry o Flwyddyn 12 am basio uned o gwrs Lefel 4 'Y Clasuron ac Athroniaeth' o dan ofal Mererid Hopwood ym Mhrifysgol Dewi Sant, Caerfyrddin.

### Llwyfan newydd i gelf yng Nghymru

## Amgueddfa Gelf Genedlaethol i Gymru

O 9 Gorffennaf 2011 ymlaen, bydd gan Gymru ei Hamgueddfa Gelf Genedlaethol ei hun fydd yn arddangos ystod lawn ein casgliad celf cenedlaethol o safon ryngwladol mewn un lle, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Am y tro cyntaf, bydd casgliad Amgueddfa Cymru o gelf gain a chymwysedig - o'r hanesyddol i'r cyfoes - yn cael ei ddangos mewn un gyfres o orielau integredig, gan roi llwyfan newydd i gelf Gymreig yng Nghymru.

Caiff ymwelwyr fwynhau hanes traddodiad gweledol unigryw Cymru, a'i le yng nghyd-destun ehangach Prydain a gweddill y byd. Gellir dilyn y trywydd drwy waith o'r cyfnod Tuduraidd hyd heddiw; paentiadau heb eu hail gan Hen Feistri Ewrop o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg; campweithiau Argraffiadaeth ac Ôl-argraffiadaeth o gymynrodd Gwendoline a Margaret Davies i'r genedl, sef eu casgliad celf Ffrengig o safon fyd-eang; a chasgliad cyfoes sy'n ysbrydoledig.

Bydd yr arddangosiad agoriadol ym mis Gorffennaf 2011 – '*Ni allaf ddianc rhag hon*' – yn cynnwys gwaith gan artistiaid a chanddynt gysylltiad â Chymru, fel Josef Herman a Shani Rhys James, ochr yn ochr ag artistiaid blaenllaw Prydeinig a rhyngwladol gan gynnwys Lucian Freud, David Hockney a Rachel Whiteread.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â
Catrin Mears, Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol ar 029 2057 3185
neu drwy e-bostio catrin.mears@amgueddfacymru.ac.uk

### *Yr Orsedd yn anrhydeddu dros 40 o bobl eleni*

Llongyfarchiadau i nifer o bobl o Gaerdydd a'r cylch sydd wedi eu hanrhydeddu eleni gan yr Orsedd sef Ann Beynon, Llandaf, Cyfarwydd-wraig BT Cymru, Eirlys Pritchard Jones, Llanbedr y Fro, Non Evans a Rhys Dafis, Gwaelod y Garth gynt.

# Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

**Spelling Bee Ffrangeg De Cymru**

Aeth 4 o enillwyr Spelling Bee Ffrangeg Blwyddyn 7 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i gystadlu yn rownd De Cymru yn Ysgol Cwrt Sart ger Castell-nedd. Gwnaeth Lois Aled, Nia Brown, Nia Fenn a Terry James yn ardderchog ar y dydd, ond dim ond Lois aeth ymlaen i'r rownd derfynol. Ar ôl rownd agos iawn, gan gynnwys *'sudden death'*, daeth Lois yn ail allan o'r holl gystadleuwyr, ac o ganlyniad, bydd Lois yn mynd ymlaen i'r 8 olaf yng Nghymru ym mis Gorffennaf. Dymunwn bob dymuniad da iddi!



**Triawd Rhyngwladol**



*Steffan Jones*

Yn fuan wedi i Cory Allen ennill ei gap cyntaf yn chwarae rygbi dan 18 i Gymru, mae disgybl arall o flwyddyn 13 sef Steffan Jones wedi chwarae pêl droed dros ei wlad o dan 18 oed yn erbyn Gogledd Iwerddon. Roeddem wrth ein bodd yn dilyn ei hynt a'i helynt ar Sky Sports! Trydydd aelod y triawd rhyngwladol yw Dafydd George. Enillodd fest rhyngwladol yn cynrychioli ei wlad wrth redeg traws gwlad yn erbyn timau ysgolion Iwerddon a'r Alban yn ddiweddar. Daeth yn 22ain yn y ras – Llongyfarchiadau i'r tri!



Dafydd George

**Dawns Deng mlwyddiant**

Ym mis Mehefin cynhaliwyd dawns fawreddog yng Ngwesty Dewi Sant Bae Caerdydd i gloi'r dathliadau deng mlwyddiant. Trefnwyd y dathliad gan aelodau CRYF. Bu'n achlysur cofiadwy gyda dros ddau gant o rieni, ffrindiau, staff a chyn-ddisgyblion yn cyd-ddathlu. Edrychwn ymlaen nawr at ddathlu'r deg nesaf.

**Llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i'r Cyflwyniad Dramatig Iau a Georgina Griggs (Unawd Sioe Gerdd) ar fod yn fuddugol ar y llwyfan ac i Megan Morris (Unawd Telyn) ar ennill yr ail wobr. Cafodd Megan hefyd ei gwobrwyo fel telynores fwyaf addawol yr ŵyl. Am y tro cyntaf enillwyd gwobrau yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd am gyfansoddi barddoniaeth Bl. 9 gan Megan Thomason a barddoniaeth Bl. 12 + 13 gan Jacob Ellis.



## O'R PLAS!

# Gwylnos y Byrllysg

Wedi wythnos o wyliau hanner tymor, ar nos Lun, Mehefin y 6ed cefais i a Nadyia Hassan ac Elisa Morris gyfle i fod yn rhan o Wylnos y Byrllysg , sef cyfle i ddathlu amrywiaeth cymunedau Cymru ar wylnos agoriad swyddogol y Senedd. Roedd y dathliad yn cael ei gynnal yn adeilad y Senedd ac roedd holl brysurdeb y diwrnod canlynol i'w weld wrth i ni gyrraedd - heddlu ym mhobman, criwiau ffilmio a'r fyddin yn ymarfer eu martsio! Cyfarfod oedd hwn oedd yn galw am well dealltwriaeth rhwng carfannau ein cymdeithas ledled y wlad a hefyd nodi dechrau Cynulliad y Cymunedau, sef un o brif amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Roedd y digwyddiad wedi ei rannu'n dair rhan sef: Cymuned o'r Cread, Cymuned o Daith y Ddynoliaeth, Cymuned o Hawl Ddynol yr Unigolyn ac yn yr un olaf roeddem ni o Blasmawr yn cyfrannu sef darllen ychydig o hanes unigolion dylanwadol. Cawsom ein dewis oherwydd ein bod yn aelodau o brosiect "Cymru'n Cyd-dynnu". Fe wnes i fwynhau'r profiad yn fawr ac roeddwn yn gwerthfawrogi cael bod yn rhan o rywbeth sy'n unigryw i ni fel Cymry wrth i ni dyfu yn genedl sydd yn dechrau unwaith eto cael llywio ein dyfodol ein hunain.

Bedwyr ab Ion

